ARTES MUNDI
Rheolwr Datblygu
GWYBODAETH A PHECYN GWNEUD CAIS

## CYFLWYNIAD

Artes Mundi yw'r prif sefydliad celfyddydau gweledol rhyngwladol ei ffocws yng Nghymru. Mae'n creu cyfleoedd unigryw i unigolion a chymunedau lleol ymgysylltu'n greadigol â phynciau llosg ein hoes mewn ffyrdd sy'n taro tant gyda phob un ohonom. Rydym wedi ymrwymo i ysgogi deialogau a dadleuon, yn rhyngwladol ac yn lleol, sy'n datblygu gwell dealltwriaeth o'n hunain, o eraill, ac o'r berthynas rhwng diwylliannau cyfarwydd a phellennig.

Yn 2025, bydd Artes Mundi yn lansio AM11, ein unfed ar ddeg arddangosfa a gwobr bob dwy flynedd, gan ddathlu 21 mlynedd o gyflwyno celf gyfoes ryngwladol arloesol yng Nghymru. Fel ail fersiwn y prosiect ar draws Cymru, bydd AM11 yn cael ei gynnal ar draws pedair trefi a dinasoedd gyda phum partner lleoliad. Er mwyn gwireddu'r prosiect uchelgeisiol hwn, ynghyd â'r rhaglen gyffredinol, mae angen codi llawer iawn o arian.

## Y SWYDD

Gan weithio ochr yn ochr â'r Cyfarwyddwr, mae'r Rheolwr Datblygu yn gyfrifol am y swydd allweddol o gyflawni a gweinyddu anghenion datblygu Artes Mundi, gan gynnwys aelodaeth, rhoddwyr, ymgyrchoedd rhoi arian blynyddol a gwaith gydag ymddiriedolaethau, sefydliadau, cefnogwyr o'r llywodraeth, cyrff corfforaethol ac unigolion yng nghyd-destun cynllun codi arian amrywiol sy'n cyfrannu'n strategol at Genhadaeth Artes Mundi. Bydd y Rheolwr Datblygu yn gweithio gyda'r Cyfarwyddwr i ysgrifennu grantiau a gweithredu ymgyrchoedd, digwyddiadau a chynigion ar gyfer sefydliadau ac ymddiriedolaethau i gael cyfleoedd am nawdd, digwyddiadau rhoi corfforaethol, llywodraethol ac unigol blynyddol/wedi'u cynllunio, rhoddion unigol a meithrin/stiwardiaeth. Bydd yn gwneud hyn drwy ddefnyddio ymddiriedolaethau, sefydliadau a rhoddwyr presennol a newydd, ynghyd â chronfeydd data, cysylltiadau ac opsiynau eraill. Bydd angen gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau o bryd i'w gilydd. Gan weithio gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ac aelodau o'r tîm ehangach, bydd y Rheolwr Datblygu yn sicrhau ac yn rheoli'r cymorth a geir gan ffynonellau yn y sector cyhoeddus a phreifat a bydd yn creu cysylltiadau tymor hir i sicrhau cynaliadwyedd y sefydliad.

## DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU:

Bydd gan y Rheolwr Datblygu gyfrifoldebau allweddol, gan gynnwys:

Rheoli a Datblygu Ymgyrchoedd (55%)

- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr i asesu anghenion cyllido a chynllunio'r sefydliad, gan weithio tuag at nodau codi arian blynyddol, a cheisio cyllid i gyflawni'r nodau hynny
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr i ddatblygu rhaglen ar gyfer adnabod, trin a denu unigolion presennol a darpar unigolion, busnesau, sefydliadau a chefnogwyr mawr eraill
- Paratoi, arwain a chynorthwyo gyda cheisiadau ysgrifenedig yn unigol ac fel y pennir gan y Cyfarwyddwr
- O fewn cysylltiadau rhoddwyr Artes Mundi, cynllunio ar gyfer estyn allan i gefnogwyr mawr, sicrhau arferion stiwardiaeth da a chadw cofnodion cyfredol rhoddwyr

- Paratoi llythyrau a dulliau codi arian sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau ac ymgyrchoedd
- Paratoi data ysgrifenedig, ariannol ac ystadegol ar gyfer ceisiadau grant, a chynnal yr holl adroddiadau ac amserlenni terfynol gyda staff eraill
- Llunio adroddiadau ar weithgareddau codi arian a sicrhau bod amserlenni adrodd yn cael eu cynnal ar gyfer asiantaethau cyllido
- Llunio adroddiadau i Ymddiriedolwyr y Bwrdd ac aelodau staff ar weithgareddau codi arian
- Cydlynu a darparu cymorth i unrhyw wirfoddolwyr sy'n ymwneud â gweithgareddau codi arian
- Cadw cofnodion o'r cyswllt a geir â phob cefnogwr, gan sicrhau bod cronfa ddata'r sefydliad yn cael ei diweddaru'n llawn bob amser
- Llunio adroddiadau cynnydd ac ariannol rheolaidd yn erbyn targedau
- Rheoli cyllidebau gwariant sy'n ymwneud â noddwyr.

Gweinyddu a Rheoli (35%)

- Dirprwyo ar ran y Cyfarwyddwr yn ôl y gofyn drwy fynychu digwyddiadau, cyfarfodydd, fforymau ac ymgynghori â'r holl randdeiliaid allweddol
- Goruchwylio'r rhaglenni a'r strategaeth codi arian a chynnig argymhellion ar gyfer datblygu yn y dyfodol mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr
- Meithrin cefnogwyr a rhanddeiliaid presennol, meithrin twf o fewn lefelau cefnogaeth a datblygu cyfleoedd i gynyddu nifer yr aelodau
- Ysgrifennu llythyrau cydnabod a chynnal adolygiadau, gwerthusiadau a gofynion adrodd terfynol ar gyfer yr holl gyllidwyr ac ymddiriedolwyr
- Llunio amrywiaeth o adroddiadau eraill yn ôl y gofyn
- Dod â rhwydwaith newydd ac yn defnyddio'r rhwydwaith presennol o gysylltiadau o fewn ymddiriedolaethau a darpar noddwyr
- Defnyddio dealltwriaeth o faterion cyfredol ym maes cyllido'r celfyddydau

Digwyddiadau (10%)

- Arwain a goruchwylio'r gwaith o gynllunio, trefnu a gweithredu'r seremoni wobrwyo ac ymgyrchoedd eraill sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau, a hynny ochr yn ochr â'r Cyfarwyddwr, aelodau eraill o staff ac Ymddiriedolwyr y Bwrdd
- Strategeiddio digwyddiadau codi arian i helpu i gyrraedd targedau, gan gynnwys ymgyrchoedd blynyddol a'r digwyddiad Gwobrau AM bob dwy flynedd
- Cynllunio, blaenoriaethu a chydlynu digwyddiadau codi arian a stiwardiaeth o wahanol fathau mewn ymgynghoriad â staff a phartneriaid Artes Mundi
- Sicrhau noddwyr a chysylltu â sefydliadau a chyflenwyr allanol i gynnal digwyddiadau
- Sicrhau bod y cyfleusterau, yr offer a'r deunyddiau angenrheidiol ar gael
- Helpu i gydlynu gwirfoddolwyr a chynorthwywyr i helpu i gynhyrchu a chyflwyno pob agwedd ar ddigwyddiadau a deunyddiau ategol

Er bod y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau hyn yn gynrychioladol, mae hefyd yn ofynnol i'r deiliad gyflawni dyletswyddau eraill fel y cânt eu neilltuo.

## YR UNIGOLYN

Rydym yn chwilio am unigolyn sydd â phrofiad o weithio ym maes codi arian ar gyfer y celfyddydau gweledol, sy'n frwd dros ymarfer cyfoes, ac sy'n dangos ymrwymiad i ymgymryd â'r swydd gyda lefelau uchel o hunan-gymhelliant, pendantrwydd a dycnwch. Mae'r gallu i weithio dan bwysau, agwedd greadigol a chadarnhaol, y gallu i gyfathrebu ag unigolion ar bob lefel a sylw i fanylion hefyd yn allweddol.

Rydym am weithio gyda phobl sydd:

- Yn agored, yn chwilfrydig ac yn angerddol am ddiwylliant a'r celfyddydau yng Nghymru a'r DU
- Yn dangos diddordeb mewn rhannu eu syniadau ac mewn gwrando ar eraill
- Yn mwynhau dysgu pethau newydd ac ymgymryd â heriau
- Yn gallu gweithio'n annibynnol ond sy'n ddigon parod i ofyn am gymorth ac arweiniad yn ôl yr angen

Bydd y swydd yn cael ei chefnogi'n bennaf gan y Cyfarwyddwr, ond byddwch hefyd yn cysylltu ac yn gweithio gyda'r holl aelodau o dîm Artes Mundi. Hefyd, byddwch mewn cysylltiad â'n Hymddiriedolwyr, partneriaid y rhaglen a'n cefnogwyr.

## CYMWYSTERAU, ADDYSG A PHROFIAD

Gradd prifysgol yn y celfyddydau neu mewn busnes, a/neu gyda dynodiad codi arian proffesiynol, a gwybodaeth gynhwysfawr o ddiwylliant a chymuned y celfyddydau a gafwyd drwy brofiad ac addysg academaidd. Byddai'r cymwyseddau ar gyfer y swydd hon fel arfer yn cael eu caffael drwy o leiaf bum mlynedd o brofiad mewn swydd codi arian, gan gynnwys gweithio'n uniongyrchol gydag amrywiaeth o gyllidwyr, ymddiriedolaethau, sefydliadau a rhoddwyr. Mae bod ag angerdd dros y celfyddydau yn fantais. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol.

## SGILIAU A GALLUOEDD

- Gallu meithrin perthynas â grwpiau rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys prif gefnogwyr, cefnogwyr o'r llywodraeth, partneriaid corfforaethol, rhoddwyr mawr, Aelodau, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a chymuned y celfyddydau
- Sgiliau archwilio cadarn gyda'r gallu i: leoli ac agor ffynonellau rhoddwyr a chyllid newydd; lleoli ac agor marchnadoedd newydd; a chaffael/adeiladu sylfaen nawdd/partneriaeth
- Gwybodaeth gadarn am roddion mawr, nawdd a marchnata sy'n gysylltiedig ag achosion
- Sgiliau uwch a lefel dda o adnabyddiaeth gyfrifiadurol, gan gynnwys MS Office, Outlook, taenlenni
- Mewnbynnu ac integreiddio data a chyflwyno gwybodaeth gan ddefnyddio system gyfrifiadurol
- Llawn cymhelliant a threfnus i weithio'n annibynnol a blaenoriaethu prosiectau a nifer o dasgau er mwyn bodloni gofynion yr amserlen yn effeithiol
- Gallu diamheuol i baratoi a rhoi cyflwyniadau effeithiol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd
- Gallu cadarn i ddadansoddi, strategeiddio, cynllunio a chychwyn prosiectau sy'n arwain at gyflawni targedau a chwblhau prosiectau ar amser ac o fewn y gyllideb
- Gwybodaeth gadarn am weithrediadau busnes, gan gynnwys strategaethau datblygu, prosesau effeithiol a brandio
- Gallu diamheuol i baratoi a rhoi cyflwyniadau effeithiol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd
- Sgiliau gwasanaeth i gwsmeriaid, diplomyddol a phroffesiynol sy'n cynrychioli gwerthoedd Artes Mundi
- Gallu da fel meddyliwr hyblyg a chreadigol, gyda sgiliau datrys problemau effeithiol
- Dealltwriaeth o'r sector celfyddydau a diwylliant, a gwybodaeth am gelfyddyd gyfoes
- Cydlynu a darparu cymorth gweinyddol
- Cyfrannu at gynnal amgylchedd gwaith iach, diogel a chynhyrchiol i chi'ch hun,

ymwelwyr a chwsmeriaid
- Yn cael eich gyrru gan atebion gydag awydd cyson i wneud pethau'n fwy effeithiol ac effeithlon

### Beth fyddwn ni'n ei wneud i'ch cefnogi chi i wneud eich gwaith gorau

Bydd y Rheolwr Datblygu yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr a fydd yn gyfrifol am sicrhau eich bod yn cael eich bod yn cael eich cefnogi'n llawn yn eich gwaith. Byddwch yn cael cyswllt rheolaidd drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb, yn ogystal ag ar-lein drwy Teams a/neu Zoom.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd sy'n meithrin cyfranogiad ystyrlon a phrofiadau cadarnhaol. Bydd y manteision o fod yn aelod o dîm craidd bach yn eich galluogi i gael cyswllt rheolaidd ac wythnosol gydag aelodau allweddol o staff, yn ogystal â chyfrannu at gyfarfodydd cynllunio a rhaglennu ffurfiol.

Mae Artes Mundi wedi ymrwymo i sicrhau eich bod yn gallu gwneud eich gwaith gorau posibl, a bydd yn gallu cefnogi anghenion mynediad fel sy'n briodol o fewn y gyllideb a'r adnoddau sydd ar gael.

Byddwch yn cael cyfleoedd sylweddol fel rhan o'r swydd i ddatblygu eich rhwydweithiau. Yn ogystal â'r cymorth a ddarperir gan Artes Mundi, bydd cyfle i ymgysylltu ag artistiaid a churaduron rhyngwladol a'r orielau sy'n eu cynrychioli. Byddwn hefyd yn datblygu cysylltiadau rhyngoch chi a phartneriaid eraill ledled Cymru. Fel rhan o'r swydd, byddwch yn derbyn gwahoddiad i arddangosfeydd a rhwydweithiau, digwyddiadau a chyfleoedd creadigol hefyd.

## ARFERION CYNHWYSOL

Mae Artes Mundi yn anelu at fod yn sefydliad cwbl gynhwysol gyda gweithlu a chynulleidfa y mae eu profiadau bywyd mor amrywiol â'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.  Mae hyn yn hollbwysig i'n llwyddiant yn y dyfodol a'n gallu i barhau i gyfrannu at ddiwylliant a chymdeithas yng Nghymru a'r DU.

Mae Artes Mundi wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau cydraddoldeb yn ein holl waith ac rydym yn cydweithio'n frwd i greu diwylliannau gwaith cynhwysol. Rydym yn cydnabod bod yna lawer o bobl nad yw eu profiadau a'u safbwyntiau yn cael eu cynrychioli'n dda yn ein gwaith nac yn y sector celfyddydau yng Nghymru, mae hyn yn cynnwys pobl sy'n amrywiol yn ethnig ac yn ddiwylliannol, ac sy'n profi hiliaeth yn ein cymdeithas, pobl fyddar, anabl a niwroamrywiol a phobl o gymunedau dosbarth gweithiol. Rydym yn annog yn benodol ymgeiswyr sy'n gallu siarad ag un neu fwy o'r profiadau a'r diwylliannau hyn, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg.

Cofiwch y bydd pob cyfweliad yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb, neu ar lwyfannau eraill ar gais. Rhoddir gwybodaeth a chyfarwyddiadau pellach i ymgeiswyr sy'n derbyn gwahoddiad i gyfweliad.  Bydd y panel cyfweld yn cynnwys aelodau o dîm Artes Mundi.

## TELERAU PENODI

Mae hon yn swydd lawn amser, barhaol. Bydd cyflog dangosol rhwng £30,000 a £37,000 yn cael ei gynnig, ond bydd yn cael ei bennu ar sail yr ymgeisydd llwyddiannus a'i brofiad a'i gefndir cymharol. Bydd pecyn adleoli cymedrol ar gael hefyd.

Yr oriau gwaith arferol yw 9.30am-5.30pm a chaiff hyn ei gyflawni drwy weithio mewn swyddfa a gweithio gartref. Gofynnir i ddeiliad y swydd gyflawni ac ymgymryd â gwaith ar rai nosweithiau a phenwythnosau. Rhoddir rhybudd priodol ar gyfer hyn.

## SUT I WNEUD CAIS

Dylai ymgeiswyr wneud cais am y rôl hon gan ddefnyddio'r **Ffurflen Gais** a'r **Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal** a'u cyflwyno drwy e-bost i opportunities@artesmundi.org gan ddyfynnu **Rheolwr Datblygu** yn y llinell pwnc. Mae manylion yr opsiynau amgen ar gyfer gwneud cais yn y nodiadau canllaw yn y ddogfen hon.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw:** Dydd Llun 24 Chwefror 2025
**Cynhelir y cyfweliadau (i'w gadarnhau):** yng Nghaerdydd, yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ddydd Llun 10 Mawrth 2025
**Y dyddiad dechrau delfrydol:** Cyn gynted â phosibl (er y bydd modd trafod hyn yn y cyfweliad)

Rheolwr Datblygu
## Ffurflen Gais

| |
|---|
| Cyfeirnod<br>At ddefnydd swyddfa yn unig |

| | |
|---|---|
| Enw(au) cyntaf | Cyfenw |
| Cyfeiriad | |
| Cod Post | |
| Ffôn | Symudol |
| E-bost | |

| |
|---|
| Sut glywsoch chi am y rôl yma? |

*Bydd yr adran hon yn cael ei gwahanu o'ch ffurflen gais wrth ei derbyn ac ni fydd yn chwarae unrhyw ran yn y broses ymgeisio.*

| |
|---|
| Cyfeirnod<br><br>At ddefnydd swyddfa yn unig |

DATGANIAD ATEGOL

Dyma'ch cyfle i sôn yn benodol ynglŷn â pham rydych yn dymuno gwneud cais am y swydd a'r rhinweddau sy'n golygu y dylech fod yn Guradur Cynorthwyol Rhaglenni Cyhoeddus gydag Artes Mundi.

Soniwch wrthym am y modd y byddech yn mynd i'r afael â'ch gwaith a'r rôl. Defnyddiwch eich gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau blaenorol a phresennol gan roi enghreifftiau sy'n dangos sut y byddech yn cymhwyso'r rhain at syniadau, gwerthoedd a dulliau gweithio sy'n berthnasol i'r rôl.

Fel arweiniad i strwythuro'ch datganiad, efallai yr hoffech ystyried ambell un neu bob un o'r cwestiynau isod.

- Pam rydych chi'n gwneud cais am y swydd hon?
- Soniwch wrthym am eich angerdd/ymrwymiad at ddiwylliant a'r celfyddydau
- Beth rydych yn ei fwynhau am ddysgu pethau newydd ac ymgymryd â heriau?
- Sut fyddwch chi'n mynd ati i flaenoriaethu tasgau?
- A oes gennych ddulliau penodol ar gyfer cynllunio a datrys problemau?
- Ym mha ffyrdd ydych chi'n gweithio gyda phobl eraill ac yn annibynnol?

Yn gyffredinol, ni ddylai'ch datganiad fod yn hirach na dwy ochr A4 mewn ffont 11pt fan lleiaf. Neu, fel y crybwyllir yn y canllaw, gellir cyflwyno hwn ar ffurf fideo neu recordiad sain. Os byddwch yn defnyddio'r dull yma, ni ddylai fod yn hirach na 10 munud.

Os fyddwch chi'n penderfynu cyflwyno fideo neu recordiad sain, gwnewch yn siŵr fod cyn lleied o sŵn yn y cefndir â phosib. Peidiwch ag ychwanegu effeithiau eraill at y cyflwyniadau hyn – dim ond siarad yn uniongyrchol ac yn glir â'r microffon neu'r camera. Gall recordiadau fideo a sain greu ffeiliau mawr a allai fod yn anodd eu hanfon drwy e-bost felly anfonwch ddolenni a chyfrineiriau i'ch ffeiliau naill ai ar YouTube, Vimeo neu Soundcloud neu eu e-bostio atom gan ddefnyddio Wetransfer ar opportunities@artesmundi.org gyda "Rheolwr Datblygu" yn y pennawd.

| |
|---|
| Cyfeirnod<br><br>At ddefnydd swyddfa yn unig |

Cyflogaeth gyfredol neu ddiweddaraf (Gyda chyflog neu'n ddigyflog)

| | |
|---|---|
| Enw a chyfeiriad y cyflogwr | |
| Teitl y swydd | Dyddiadau'ch cyflogaeth |
| Cyfnod rhybudd sydd ei angen os o gwbl | |
| Rhowch fraslun byr o'ch prif ddyletswyddau a/ neu gyfrifoldebau | |

Gwybodaeth o Gymraeg llafar neu ieithoedd eraill. Nodwch yr iaith a'r lefel (e.e. mynediad, sylfaen, canolradd, uwch, hyfedrus)

Nid oes angen ail iaith i'r swydd hon

| |
|---|
| |

## Cyflogaeth arall a gwaith gwirfoddol (Gyda chyflog a/neu ddigyflog)

Rhestrwch y diweddaraf yn gyntaf

| O:<br>I: | Enw a chyfeiriad y cyflogwr | Rôl a chyfrifoldebau | Rhesymau am adael/ symud ymlaen |
|---|---|---|---|
| | | | |

## Addysg a Hyfforddiant

Rhowch fanylion unrhyw gymwysterau a gafwyd a’r rheiny yr ydych yn ceisio amdanynt ar hyn o bryd ac unrhyw hyfforddiant rydych chi wedi’i gyflawni neu sy’n parhau.
Rhestrwch y diweddaraf yn gyntaf

| Ysgol/ Coleg/ Prifysgol/ Darparydd Hyfforddiant | Pynciau a graddau a/neu deitl y cwrs | Dyddiadau derbyn |
|---|---|---|
| | | |

Gwirio

Cadarnhaf, hyd y gwn i, fod y wybodaeth uchod yn gywir.

Cadarnhaf nad ydw i mewn addysg llawn-amser (12 awr neu ragor o astudio ffurfiol yr wythnos)

Cadarnhaf fod gen i hawl i weithio yn y DU

Deddf Diogelu Data
Noder pan fyddwch yn llofnodi'r ffurflen hon ei bod yn rhoi caniatâd iddi gael ei defnyddio ar gyfer y broses recriwtio. Cedwir yr holl fanylion yn gyfrinachol.

Llofnodwyd: Dyddiad:

Noder y bydd yn rhaid cwblhau ein Ffurflen Monitro Cyfleoedd Cyfartal ar wahân ac ni fydd yn cael ei defnyddio at lunio rhestr fer, yn unol â'n Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Bydd cwblhau hon yn helpu Artes Mundi yn eu hymrwymiad i fod yn gyflogwr cyfleoedd cyfartal.

Canolwyr

Rhowch fanylion dau ganolwr, y naill yn gyflogwr presennol i chi neu'ch cyflogwr diweddaraf os nad ydych mewn gwaith ar hyn o bryd. Gallai'r llall fod yn rhywun a all fynegi barn broffesiynol ar eich gwaith a'ch gallu i berfformio'r swydd yr ydych yn gwneud cais amdani.

Ni fyddwn yn cysylltu â chanolwyr cyn cyfweliad.

| | |
|---|---|
| Enw | Enw |
| Teitl swydd | Teitl swydd |
| Enw sefydliad | Enw sefydliad |
| Cyfeiriad | Cyfeiriad |
| Rhif Ffôn Cyswllt<br><br>E-bost Cyswllt | Rhif Ffôn Cyswllt<br><br>E-bost Cyswllt |
| Ers pryd rydych wedi nabod y person yma a sut? | Ers pryd rydych chi'n nabod y person yma a sut? |

Diolch yn fawr am eich diddordeb yn Artes Mundi ac am gymryd yr amser i gwblhau'r ffurflen gais yma